**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 16eg Mai, 2017 at 5.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor J. Higginson (Chairman)
County Councillor P. Jordan (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, D. Blakebrough, M. Powell, V. Smith, P. Clarke, D. Dovey, A. Easson, R. Edwards, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, R. Harris, G. Howard, S. Howarth, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Murphy, B. Strong, F. Taylor, A. Watts, A. Webb and K. Williams

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |

**APOLOGIES:**

Councillors D. Evans

**2. Datganiadau o Fuddiant**

Dim

**3. Ethol Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/18**

Siaradodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Sir J. Higginson, gan ddiolch i bawb oedd wedi ei gefnogi yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn anrhydedd i'r Cadeirydd a'i gonsort, a chynigiodd ddiolch diffuant i gydweithwyr am y cyfle.
Nododd y Cadeirydd lwyddiant yr Eisteddfod a'r llongyfarchiadau a dderbyniwyd gan drefnwyr y digwyddiad. Ychwanegodd fod gennym ni fel awdurdod bob lle i fod yn falch o'r llwyddiant, gan sôn am waith caled swyddogion yn yr wythnosau a misoedd cyn y digwyddiad. Diolchodd yn neilltuol i'r staff a roddodd help gyda thiwtora Cymraeg i baratoi am yr araith agoriadol. Soniodd y Cadeirydd hefyd am ddigwyddiadau eraill amlwg yn cynnwys Garddwest y Frenhines ym Mhalas Buckingham, cyngerdd Cerddoriaeth Gwent yn Neuadd Albert, Coffau Tân Mawr Llundain ac ymweliadau brenhinol ar draws y sir. Clywsom hefyd am ddigwyddiadau arian ar gyfer elusennau'r Cadeirydd, Tŷ Hafan a Sefydliad Dewi Sant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r staff cwrtais ym mhob rhan o'r Awdurdod, gan werthfawrogi help amhrisiadwy Mrs. Linda Greer a Mrs. Julia Boyd. Mynegwyd diolch i Steve Barker, chauffeur y Cadeirydd.

Cynigiodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau a'i ddymuniadau gorau ar gyfer y cadeirydd newydd.

Siaradodd y Cynghorydd Sir P Fox a diolchodd i'r Cynghorydd Sir Higginson am ei flwyddyn yn y swydd, ynghyd â'i gonsort, Pauline Collier, am eu gwaith i'r Cyngor. Wrth fwrw golwg yn ôl ar flwyddyn y Cadeirydd yn y swydd, dywedodd iddi fod bleser gweithio wrth ochr Cadeirydd mor rhagorol, oedd bob amser yn cynnal cyfarfodydd teg, cytbwys a chynhyrchiol. Llongyfarchodd y Cynghorydd Higginson ar fod yn llysgennad gwych yn yr Eisteddfod a nododd y llu o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn arbennig wasanaeth coffa teimladwy Aberfan. Clywsom fod elusennau'r Cadeirydd wedi codi dros £5000 hyd yma.

Adleisiodd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol, y Cynghorydd Sir D. Batrouni, S. Howarth a L. Guppy sylwadau'r Cynghorydd Fox.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir P. Fox ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Murphy bod y Cynghorydd Sir M. Powell yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Fynwy am Flwyddyn Ddinesig 2017/18.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir M. Powell a llofnodi Datganiad Derbyn Swyddfa, cafodd ei hurddo gyda'i Chadwyn Swydd gan y Cadeirydd sy'n ymadael, a chymerodd y Gadair.

Diolchodd y Cadeirydd newydd-etholedig i Aelodau am eu cefnogaeth a chyhoeddodd mai Mr. J. Powell fyddai ei chonsort; y Canon Mark Soady yn Gaplan; ac mae ei helusennau fyddai Cymdeithas Alzheimer ac Ambiwlans Awyr Cymru. Yn anffodus, nid oedd Mr. Powell yn medru bod yn bresennol a diolchodd y Cadeirydd i Mrs. E Hacket Pain oedd yn gweithredu fel Dirprwy Gonsort.

Yna cyflwynodd y Cadeirydd Fathodyn Swydd Cyn Gadeirydd i'r Cadeirydd sy'n gadael y swydd.

## 4. Penodi Is-gadeirydd y Cyngor Sir am Flwyddyn Ddinesig 2017/18

Cynigiodd y Cynghorydd Sir R.J.W. Greenland ac eiliodd y Cynghorydd Sir S.L. Jones benodi'r Cynghorydd Sir P. Clarke yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir am Flwyddyn Ddinesig 2017/18.

Cynigiwyd, fel gwelliant gan y Cynghorydd Sir D. Batrouni a'i eilio gan y Cynghorydd Sir R. Harris, bod y Cynghorydd Sir K. Williams yn cael ei benodi yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir am Flwyddyn Ddinesig 2017/18.

Mewn pleidlais, bwriwyd y pleidleisiau dilynol:
Dros y Cynghorydd Sir Clarke: 26
Dros y Cynghorydd Sir Williams: 10

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Sir P. Clarke fel Is-gadeirydd y Cyngor Sir am y Flwyddyn Ddinesig 2017/18.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir Clarke a llofnodi Datganiad Derbyn Swydd, a chafodd ei urddo gyda'i Gadwyn Swydd gan y Cadeirydd, a chymerodd ei le fel Is-gadeirydd.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i Aelodau am eu cefnogaeth a chynigiodd ei gefnogaeth i'r Cadeirydd newydd. Mrs. Jan Clarke fyddai consort yr Is-gadeirydd.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 16eg Mai, 2017 at 5.00 pm

Daeth y cyfarfod i ben gyda chyflwyno'r Gadwyn Swydd i Ddirprwy Gonsort y Cadeirydd newydd, pendant i Gonsort y Cadeirydd sy'n ymadael a'r Gadwyn Swydd i Gonsort yr Is-gadeirydd newydd.

**5. Gohirir yr eitemau dilynol i gyfarfod y Cyngor Sir a gynhelir ar 18 Mai 2017:**

Penderfynwyd gweddilli eitemau busnes i gyfarfod y Cyngor Sir a gynhelir ar 18 Mai 2017.

**The meeting ended at Time Not Specified**